



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru

Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Cynllun Gweithredol 2018-19



© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2018.

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>.

OGL

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, chc.cymru@cbhc.gov.uk.

Cynnwys

1.	Ein hamgylchedd gweithredol	3
2.	Cyflawni ein hamcanion allweddol	5
3.	Cymorth Grant Llywodraeth Cymru	16

1. Ein hamgylchedd gweithredol

Yn y cynllun gweithredol hwn nodir y prif weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith blynyddol a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf mae'r Comisiwn Brenhinol wedi datblygu'n sefydliad sy'n edrych tuag allan. Rydym ynghlwm wrth nifer o brosiectau ymchwil o bwys cenedlaethol a rhyngwladol sy'n mynd i'r afael â materion cyfoes allweddol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd a galluogi pobl o bob cefndir i gymryd rhan yn nhreftadaeth Cymru.

Rydym wedi datblygu partneriaethau proffesiynol gyda'r prif sefydliadau sy'n ymwneud â deall, diogelu, gwella a chreu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru, gan gynnwys yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a phrifysgolion Abertawe, Caerdydd, Bangor, Caer ac Aberystwyth, a nifer o awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol, yn ogystal â'r tri sefydliad cenedlaethol arall sy'n gyfrifol am dreftadaeth ddiwylliannol Cymru – Cadw, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn ogystal â'r grant creiddiol a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi sicrhau arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Inter-Reg yr Undeb Ewropeaidd, Cadw, a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae'r prosiectau hyn bellach yn cyfrif am oddeutu 18 y cant o'n hincwm ac mae hyn wedi ein galluogi i benodi staff ychwanegol i ymgymryd â gweithgareddau sy'n cyfrannu at gyflawni ein cylch gwaith o dan y Warrant Frenhinol, sef ymchwilio i'r amgylchedd hanesyddol a churaduro cofnodion.

Felly rydym yn edrych ymlaen yn llawn hyder a brwdfrydedd at weithio ar amrywiaeth o brosiectau uchelgeisiol yn 2018-19. Y prif rai yw:

- **CHERISH:** prosiect wedi'i ariannu gan y Gronfa Inter-Reg sy'n ein galluogi i astudio effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol Cymru.

- **Coffáu'r Rhyfel Anghofiedig yn erbyn y Llongau-U:** prosiect wedi'i ariannu gan CDL a ddatblygwyd gennym i goffáu'r ymladd ar y môr ar hyd arfordir Cymru yn ystod y Rhyfel Mawr, a oedd yn agwedd bwysig ar y gyflafan.
- **Treftadaeth Ddisylw: Ceredigion Gyfyngedig?:** prosiect wedi'i ariannu gan CDL sy'n denu pobl ifanc i gofnodi a deall agweddau ar dreftadaeth sydd o bwys iddynt.
- **Cais Safle Treftadaeth Byd y Diwydiant Llechi:** rydym yn helpu i gynhyrchu cyfres ddarbwyllol o ddogfennau i gefnogi'r enwebiad Safle Treftadaeth Byd.
- **Darpariaeth ddigidol:** ein cynllun i ddiogelu ein hasedau digidol a darparu mwy o gynnwys, a gwell cynnwys, ar-lein i'r amrywiaeth ehangaf posibl o ddefnyddwyr.

Mae sawl her ynghlwm wrth gyflawni'r agenda uchelgeisiol hon. Rhaid i ni sicrhau cydbwysedd rhwng y rhwymedigaethau sy'n deillio o'n cytundebau cyllido a phartneriaeth, ein dyletswyddau o dan y Warrant Frenhinol, a'r angen i ymgymryd â gweithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at amryfal gynlluniau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *Symud Cymru Ymlaen, Ffyniant i Bawb* (wedi'i gefnogi gan *Cynllun Gweithredu Economaidd Ysgrifennydd y Cabinet* dros yr Economi a Thrafnidiaeth), *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru*, ac ymgyrchoedd hyrwyddo 'Blwyddyn y ...' Croeso Cymru. Yn ogystal, mae gofynion cydymffurfio wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ac mae erbyn hyn yn cyfrif am ryw 15 y cant o holl gostau ac adnoddau'r Comisiwn Brenhinol.

Am y rheswm hwn, croesawn gynlluniau Llywodraeth Cymru i lacio'r berthynas rhwng cyrff hyd-braich, gan gynnwys y cynnig ar gyfer cylchoedd gwaith 'llywodraeth gyfan' pum mlynedd o hyd a'r cynnig i ddirwyn cyllidebu blynyddol i ben.

Mae gennym ymrwymiad cryf i Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol ac i gydweithio'n nes â Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru i hyrwyddo diwylliant cyfoethog Cymru i gynulleidfaoedd lleol a rhyngwladol, i ddarparu gwasanaeth ardderchog i'r cyhoedd, ac i gynnig mwy o gyfleoedd i staff drwy ddatblygu un gweithlu i'r sector a fydd yn arwain at lawer mwy o hyblygrwydd o ran secondiadau a phrofiad gwaith gyda chwaer sefydliadau.

2. Cyflawni ein hamcanion allweddol

1.0 Unedig a Chysylltiedig

‘Ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a’r iaith Gymraeg, a’n lle yn y byd.’ (*Ffyniant i Bawb*, tudalen 19)

Mae’r Comisiwn Brenhinol mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad sylweddol at y nod hwn gan mai ni sy’n dal y casgliad cenedlaethol o gofnodion yn ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys casgliadau helaeth a chynhwysfawr o ffotograffau, sy’n adnodd allweddol i’r sawl sy’n ceisio deall sut mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth Cymru wedi datblygu ers y cyfnodau cynharaf.

Cyfrannwn hefyd at hyrwyddo’r iaith Gymraeg drwy reoli’r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ar ran y genedl. Adnodd pwysig iawn yw hwn o ran sicrhau na cholli enwau lleoedd Cymru ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol ar gyfer enwi strydoedd ac adeiladau newydd. Mae ymgysylltu cymunedol yn egwyddor hanfodol yn y rhan fwyaf o’n prosiectau sy’n derbyn cyllid o’r tu allan, a chwaraewn ran allweddol hefyd yng ngwaith Casgliad y Werin Cymru.

1.1 **Amcan Ffyniant i Bawb: Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy’n gydnherth**

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (CAHion): Byddwn yn parhau i arwain y gwaith o reoli data am amgylchedd hanesyddol Cymru drwy oruchwylio’n annibynnol y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol. Byddwn yn ystyried y dewisiadau ar gyfer darparu data CAH-seiliedig, wedi’i lunio yn ôl safonau cyson, yn fwy ymatebol ac effeithlon, fel y gellir ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau cynllunio CAH-seiliedig yn lleol.

Enwau lleoedd hanesyddol: Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella’r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Byddwn yn gweithio gyda Cadw a phartneriaid eraill i hyrwyddo’r amrywiol ffyrdd y gellir defnyddio’r Rhestr, a byddwn yn parhau i weithio’n agos â’r grŵp o randdeiliaid a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru i ddatblygu cynnwys perthnasol.

DPA 1: Gwneud casgliadau, gwasanaethau ac adnoddau'r Comisiwn Brenhinol yn fwy hygyrch, drwy gyfrwng gweithgareddau estyn-allan, partneriaethau lleol, ac ati.

Mynediad: Yn ogystal â pharhau i gasglu, diogelu, catalogio a darparu deunyddiau'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, byddwn yn parhau i hybu defnydd ac ymwybyddiaeth o Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ac i ddefnyddio ein gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus ac estyn-allan wedi'u hen sefydlu i sicrhau bod adnoddau'r Comisiwn Brenhinol ar gael i bawb. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys ein gwasanaethau ar-lein a'n hystafell ymchwil gyhoeddus, a rhaglen brysur o ddigwyddiadau a gweithgareddau estyn-allan, yn eu plith cyhoeddiadau, sgysiau, darlithiau, symposia, teithiau cerdded tywys, dyddiau agored ac arddangosfeydd teithiol, yn ogystal â'n stondinau yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

1.2 Amcan Golau yn y Gwyll: Cynyddu cyfranogiad, cynhwysiant ac ymgysylltu

DPA 2: Annog yr amrywiaeth fwyaf posibl o gynulleidfaoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

DPA 3: Monitro bodlonrwydd defnyddwyr ac ymgorffori eu hadborth ym mentrau a datblygiadau'r dyfodol.

Gwasanaethau i'r cyhoedd: Byddwn yn parhau i fonitro bodlonrwydd ac adborth defnyddwyr ac i sicrhau y defnyddir y wybodaeth a gesglir i lywio'r ffordd y byddwn yn cynllunio ein prosiectau, cynhyrchion a gwasanaethau. Byddwn yn ymgymryd ag adolygiad o'n holl weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'r nod o sicrhau ein Comisiynwyr a Llywodraeth Cymru ein bod ni'n bodloni anghenion ein holl ddefnyddwyr ac yn gwneud cyfleoedd diwylliannol yn hygyrch i bobl o bob cefndir, gan adlewyrchu amrywiaeth ein cenedl, a chan annog yr amrywiaeth ehangaf posibl o gynulleidfaoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Yn y modd hwn, bydd y Comisiwn Brenhinol yn cyfrannu at y nod o wneud Cymru'n genedl weithgar greadigol.

Coffáu'r Rhyfel Anghofiedig yn erbyn y Llongau-U: Byddwn yn cwblhau rhan gyntaf y prosiect llongau-U dwy-flynedd a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr a bydd yn rhan o gyfres o weithgareddau gan y sector treftadaeth i goffáu'r

Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd storïau lleol am y Rhyfel yn cael eu casglu ac ystyrir effaith y rhyfel ar y môr ar gymunedau arfordirol Cymru.

Byddwn yn helpu cymunedau lleol i ymchwilio i'r hanes hwn ac i adrodd eu storïau eu hunain drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau wedi'u hwyluso mewn amgueddfeydd môr ledled Cymru.

Treftadaeth Ddisylw: Ceredigion Gyfyngedig?: Byddwn yn cwblhau rhan gyntaf y prosiect Ceredigion Gyfyngedig? tair-blynedd a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri – fel rhan o'r rhaglen Treftadaeth Ddisylw? a arweinir gan Cadw – sy'n galluogi pobl ifanc i ddiffinio eu 'treftadaeth' eu hunain ac i nodi beth sy'n werthfawr iddynt a pham, ac sy'n eu helpu i ddysgu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ymchwilio i'r dreftadaeth honno a'i chofnodi ac adrodd storïau grymus amdani.

Gwobrau Angel Treftadaeth: Bydd gan y Comisiwn Brenhinol ran flaenllaw mewn gweinyddu Gwobrau Angel Treftadaeth Cymru, wedi'u hariannu gan Sefydliad Andrew Lloyd-Webber, sy'n tynnu sylw at ymwneud pobl o bob cefndir â threftadaeth Cymru a thrwy hynny'n annog pobl eraill i gymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth yng Nghymru.

1.3 Amcan Ffyniant i Bawb: Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

Bydd y Comisiwn Brenhinol yn gwneud cyfraniad pwysig at hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd, drwy gyflwyno diwylliant, treftadaeth ac iaith y genedl i gynulleidfa ryngwladol a helpu i hyrwyddo ein gwlad yn fyd-eang. Byddwn yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwaith maes ac ymchwil yn ogystal â'n gwasanaethau i'r cyhoedd, a rhoddwn bwyslais cynyddol ar gynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o safon uchel.

Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol: Yn ychwanegol at y gweithgareddau isod, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yng Ngrŵp yr Amgylchedd Hanesyddol i hyrwyddo treftadaeth Cymru ac i gyfrannu i'r adroddiad 'Heritage Counts' sy'n ddogfen rymus dros dreftadaeth, a byddwn yn parhau i gymryd rhan weithgar yn fforymau a byrddau strategol y sector treftadaeth Cymreig, gan gynnwys Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru a'i fentrau Twristiaeth Ffydd.

DPA 4: Parhau i wella gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ymgymryd ag arolygon, ymchwiliadau a gwaith ymchwil.

Arolygu ac ymchwilio: Bydd ein tîm o staff maes hynod brofiadol yn ymgymryd â rhaglen brysur o waith arolygu i gofnodi a dehongli adeiladau, tirweddau a henebion pwysicaf Cymru, gan ddefnyddio dulliau fel arolygon archaeolegol, ffotograffiaeth, laser-sganiao 3D, a thynnu lluniau o'r awyr. Mae ein strategaeth arolygu'n cynnwys cynnal prosiectau wedi'u seilio ar thema neu ardal i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o rannau o'n treftadaeth nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol, sy'n eithriadol o bwysig, neu sydd mewn perygl o ganlyniad i esgeulustod, difrod amgylcheddol neu ddatblygiad. O dan rai amgylchiadau, byddwn yn cofnodi adeiladau arbennig o bwysig mewn ymateb i fygythiadau penodol, ac yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol i wneud hynny pryd bynnag y bo modd.

Cais Safle Treftadaeth Byd Diwydiant Llechi Cymru: Byddwn yn parhau i roi cefnogaeth gref i'r cais i sicrhau Safle Treftadaeth Byd i Ddiwydiant Llechi Cymru cyn iddo gael ei gyflwyno i UNESCO ar ddiwedd haf 2018. Bydd ein staff maes yn parhau i weithio ar y dogfennau craidd ar gyfer yr enwebiad, gan weithio yn y maes i nodi asedau o bwys. Byddwn yn tynnu lluniau o'r awyr er mwyn cyflenwi delweddau cyfoes ar gyfer y dogfennau enwebu, ac yn darparu delweddau hanesyddol o'n harchif. Byddwn yn helpu i ddylunio a chynhyrchu'r ddogfen enwebu derfynol, gan ddefnyddio ein hadnoddau GIS, mapio, dylunio, a modelu 360-gradd. Bydd staff a Chomisiynwyr yn cynnig sylwadau fel 'cyfeillion beirniadol' ar ddrafftiau'r ddogfen enwebu.

Addoldai Hanesyddol: Byddwn yn gweithio gyda Cadw a'r Architectural History Practice i gyfrannu at arolwg o'r holl eglwysi Catholig yng Nghymru er mwyn mesur a phwyso eu pwysigrwydd ac i hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus am geisiadau grant, rhestru, a chau a gwaredu posibl. Byddwn yn penderfynu ar gwmpas arolwg peilot o addoldai diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yng Nghymru cyn cynnal arolwg Cymru gyfan. Byddwn yn parhau i helpu cynulleidfaoedd i gwrdd â'r her o ofalu am yr addoldai hanesyddol y maent hwy'n gyfrifol amdanynt.

Adeiladau gwerinol: Byddwn yn parhau â'n gwaith ar adeiladau gwerinol canoloesol Cymru, gan weithio gyda phartneriaid megis cymdeithasau lleol a

darparu hyfforddiant anffurfiol ar gyfer eu gwirfoddolwyr. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar ddulliau dyddio coed arloesol yn seiliedig ar isotopau ocsigen.

DPA 5: Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth drwy gynnal prosiectau y mae'r Comisiwn Brenhinol wedi llwyddo i ddenu cyllid allanol ar eu cyfer.

CHERISH: Byddwn yn ymgymryd ag ail flwyddyn y rhaglen CHERISH bum-mlynedd sy'n cael ei hariannu gan gronfa Inter-Reg yr Undeb Ewropeaidd. Nod y prosiect yw ymchwilio i effeithiau newid hinsawdd ar dreftadaeth arfordirol o amgylch ac o dan Fôr Iwerddon, mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth, Arolwg Daearegol Iwerddon a Rhaglen Ddarganfod Iwerddon. Mae gweithgareddau sy'n hybu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r rhaglen waith hon.

Coffáu'r Rhyfel Anghofiedig yn erbyn y Llongau-U: Yn ystod 'Blwyddyn y Môr' 2018 a 'Blwyddyn Darganfod' 2019 Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i arwain y prosiect hwn, mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol. Cynhelir rhaglen o arolygon geoffisegol morol i gasglu data cydraniad-uchel o 17 longddrylliad yn ystod haf 2018. Bydd arolygon ecolegol yn cael eu cynnal ar rai o'r llongddrylliadau hyn, gyda chymorth ein partneriaid. Bydd gwirfoddolwyr sy'n gysylltiedig ag 16 o bartneriaid amgueddfaol ar hyd arfordir Cymru yn gwneud ymchwil i storïau am y Rhyfel Mawr ar y môr. Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil i'w gweld mewn cyfres o arddangosfeydd, digwyddiadau ac adnoddau ar-lein sy'n cyd-daro â chanmlwyddiant y cadoediad.

DPA 6: Darparu cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o safon uchel ar gyfer cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol, a pharhau i weithio ar y platfform ar gyfer cyflwyno asedau digidol y Comisiwn Brenhinol.

Cynnwys digidol: Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol, byddwn yn parhau i ddatblygu cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o safon uchel.

Darpariaeth ddigidol: Un o brif amcanion y flwyddyn yw datblygu platfform darpariaeth ddigidol newydd y Comisiwn Brenhinol wrth i ni dynnu'n ôl o'n partneriaeth SWISH gyda Chomisiwn Brenhinol yr Alban gynt. Rydym wedi

dibynnu ar SWISH ers blynyddoedd i gyflawni'r swyddogaeth hon. Byddwn yn cwblhau 'Cam Darganfod' y prosiect ac yn ceisio cyllid ar gyfer y costau a ragwelir, efallai drwy'r ffrwd gyllido 'Buddsoddi i arbed'. Y nod yw sicrhau bod gan y Comisiwn Brenhinol blatfform darpariaeth ddigidol a fydd yn sicrhau mynediad hwylus i adnoddau cyfoethog Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, a bod gan ein staff y sgiliau sy'n angenrheidiol i gynnal a gwella'r system newydd.

DPA 7: Cefnogi 'Blwyddyn y Môr' yn 2018 drwy gyhoeddi'r llyfr dwyieithog *Cymru a'r Môr* a threfnu'r arddangosfa gysylltiedig mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru a Cadw.

Blwyddyn y Môr: Byddwn yn cyfrannu'n sylweddol i weithgareddau Blwyddyn y Môr 2018 drwy gyhoeddi *Cymru a'r Môr*, llyfr dwyieithog llawn lluniau, 328 tudalen o hyd, sy'n cael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â'r cyhoeddwr, Y Lolfa, ac a gaiff ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym mis Awst 2018. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector i gynhyrchu dwy arddangosfa fawr sy'n seiliedig ar y llyfr, a gynhelir yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod yr haf, ac a fydd yn teithio ar hyd a lled Cymru wedyn.

Blwyddyn Darganfod: Byddwn yn cydweithio'n agos â Chroeso Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru a phartneriaid eraill yn y sector i gynllunio cyfres o weithgareddau ar gyfer Blwyddyn Darganfod, gan gynnwys digwyddiadau, cynnwys gwefan ac arddangosfeydd, gyda'r nod o annog pobl i ymchwilio a darganfod mwy am dreftadaeth Cymru.

2.0 Uchelgeisiol ac yn Dysgu

‘Ein nod yw creu’r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau.’
(*Ffyniant i Bawb*, tudalen 15)

Dysgu gydol oes: Bydd y Comisiwn Brenhinol yn parhau i ddarparu profiadau dysgu o safon uchel, yn anffurfiol drwy ei lyfrgell ac ystafell ymchwil gyhoeddus a’r staff gwybodus sy’n gweithio yno a thrwy ymweliadau grŵp gan blant ysgol, myfyrwyr a grwpiau cymunedol, ac yn fwy ffurfiol drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli neu leoliadau i fyfyrwyr.

CHERISH: Fel rhan o’r prosiect CHERISH, byddwn yn cynnal gweithdai, seminarau a digwyddiadau estyn-allan diddorol i godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth mewn perygl a newid hinsawdd. Caiff y digwyddiadau estyn-allan eu trefnu mewn cydweithrediad ag Addysg Oedolion Cymru.

2.1 Amcan *Ffyniant i Bawb*: Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o’u potensial a datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw

Treftadaeth Ddisylw: Ceredigion Gyfyngedig?: Fel y crybwyllwyd uchod (adroddir ar hyn o dan DPA 2), mae ein prosiect Ceredigion Gyfyngedig? sy’n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn canolbwyntio ar ddatblygu arfer gorau wrth weithio gyda phobl ifanc nad oes ganddynt lawer o gysylltiad â threftadaeth. Mae cynllun gweithredu’r prosiect wedi’i seilio ar anghenion a chymhellion y bobl ifanc, partneriaid a rhanddeiliaid a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae wedi’i strwythuro mewn ffordd a fydd yn galluogi pobl ifanc i reoli a diffinio manylion ac allbynnau eu prosiect wrth iddo ddatblygu.

Lleoliad Sgiliau ar gyfer y Dyfodol: Yn 2019, bydd y Comisiwn Brenhinol yn cymryd rhan yng nghynllun *Uchelgais Diwylliannol: Amrywiaethu’r gweithle treftadaeth drwy gydweithredu, cyfle a sgiliau* Cronfa Dreftadaeth y Loteri drwy gynnig lleoliad tri-mis gyda thâl i berson ifanc rhwng 18 a 24 oed sy’n dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is.

Partneriaeth Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur: Bydd y Comisiwn Brenhinol yn parhau i gefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, a fydd yn dechrau ar gyfnod pwysig newydd yn sgil derbyn cyllid gan Sefydliad y Tywysog i nodi pen-blwydd Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru yn 70 oed. Rhoddir blaenoriaeth i ddefnyddio adfer yr adeiladau sy’n eiddo i’r Ymddiriedolaeth yn gyfle i annog pobl ifanc i ymgymryd â gwaith crefft ac adeiladu traddodiadol.

3.0 Ffyniannus a Diogel

'Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl.' (*Ffyniant i Bawb*, tudalen 7)

3.1 Amcan Ffyniant i Bawb: Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg

DPA 8: Cydweithio ag aelodau Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol a rhanddeiliaid eraill yn sector amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd Cymru i wneud cynnydd mewn pedwar maes a nodwyd ar gyfer cydweithredu (strategaeth sgiliau sector, swyddogaeth swyddfa gefn, gwasanaeth cwsmeriaid a chyfleoedd masnachol).

Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol: Fel aelod o Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol a'i phedwar gweithgor byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill, staff ac undebau llafur cydnabyddedig yn y sectorau amgylchedd hanesyddol, amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd yng Nghymru i fynd i'r afael â gofynion sgiliau arbenigol o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol ehangach ac i reoli cysylltiadau diwydiannol.

Bydd Ysgrifennydd y Comisiwn Brenhinol yn parhau i wasanaethu fel cydgadeirydd Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol (gyda Gareth Howells, swyddog yr undeb llafur Prospect). Byddwn yn cwblhau archwiliad o ofynion sgiliau sector yn ystod y flwyddyn ac yn argymhell camau, gan gynnwys prentisiaethau a ffurfiau eraill ar hyfforddi, i sicrhau bod y sawl sydd â'i fryd ar weithio yn y sector yn cael cyfle i feithrin y medrau perthnasol.

Bydd yr Ysgrifennydd hefyd yn bwrw ymlaen ag agendâu eraill y bartneriaeth: rhoi sylw i gostau swyddfa gefn, gwasanaeth cwsmeriaid, cyfleoedd masnachol, brandio, cysoni cyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth ar draws y sector, a thynnu'r rhwystrau biwrocraidaidd i symudiad rhydd staff o'r naill sefydliad i'r llall.

DPA 9: Parhau i gyflawni swyddogaethau corfforaethol y Comisiwn Brenhinol yn effeithiol, effeithlon a chynaliadwy, gan ymgymryd â'i holl ymrwymadau cyfreithiol, ariannol, llywodraethu, adrodd, a diogelwch mewn pryd ac yn unol ag arfer gorau fel y'i nodir gan Lywodraeth Cymru.

Swyddogaethau corfforaethol: Mae swyddogaethau corfforaethol y Comisiwn Brenhinol yn cynnwys llywodraethu, cyllid, caffael a thalu cyflenwyr, rheoli cyfleusterau, cynllunio ar gyfer trychineb, cynnal cofrestr risg, iechyd a diogelwch, TGCh a Diogelwch Seibr, adnoddau dynol a gweithgareddau hyfforddi, cydraddoldeb a monitro amrywiaeth, codi arian a datblygu partneriaethau allanol, cydymffurfiaid Iaith Gymraeg, adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru, yr adroddiad blynyddol, yr archwiliad blynyddol, trefnu cyfarfodydd y Comisiwn, recriwtio Comisiynwyr, a llawer mwy.

Blaenoriaethau'r Comisiwn Brenhinol ar gyfer y flwyddyn fydd cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a chael achrediad Cyber Essentials Plus gydag IASME.

3.2 Amcan Ffyniant i Bawb: Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Cyngor cynllunio: Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r rheiny sy'n gweithio ym meysydd cynllunio, cadwraeth a pholisi amgylcheddol er mwyn cyfrannu at reolaeth gynaliadwy o'r amgylcheddau hanesyddol a naturiol, yn enwedig mewn meysydd lle y mae gennym arbenigedd neilltuol megis treftadaeth forol.

Archaeoleg arforol: Byddwn yn cyfrannu at ddiffinio a hyrwyddo polisi archaeoleg arforol yng Nghymru ac yn darparu cyngor arbenigol mewn ymateb i geisiadau am drwyddedau morol fel rhan o'r drefn caniatâd morol, gan sicrhau bod llongdrylliadau hanesyddol a phalaeo-dirweddau boddedig yn cael eu deall a'u gwarchod yn well.

Adeiladau mewn perygl: Byddwn yn parhau i drafod â Cadw ynghylch adeiladau unigol a mathau o adeiladau sydd fwyaf mewn perygl a byddwn yn ymgymryd â gwaith cofnodi os yw'r adnoddau gennym (ac os nad oes gennym ddigon o adnoddau i gwrdd â'r angen byddwn yn asesu hyd a lled y gwaith ac yn ceisio lefelau priodol o gyllid).

CHERISH: Yn ychwanegol at yr uchod, bydd y gwaith y mae'r Comisiwn Brenhinol yn ei wneud fel rhan o'r prosiect CHERISH yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i effeithiau. Mae hyn yn wir hefyd am ein gwaith ar ran is-grŵp newid hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cynnwys modelu effeithiau posibl newidiadau yn lefel y môr a llifogydd ar y naill law a chodiadau mewn tymheredd ar y llaw arall.

DPA 10: Datblygu isadeiledd i reoli a monitro cymorth ar gyfer gwasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol a chynghor ar gynllunio morol a thrwyddedu morol.

Cymorth ar gyfer gwasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol: Fe fyddwn, fel ymgynghoreion statudol yn y broses Caniatâd Adeilad Rhestredig, yn parhau i roi cyngor i swyddogion cadwraeth awdurdodau lleol ar geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig. Eleni byddwn yn datblygu gweithdrefnau newydd ar gyfer rheoli a monitro'r gwaith hwn (yn ogystal â'r gwaith o roi cyngor ar gynlluniau morol a thrwyddedau morol). Byddwn yn cynhyrchu arweiniad ar lefelau o gofnodi i'w ddefnyddio gan Cadw gyda swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau lleol i annog y defnydd o amodau cynllunio sy'n gofyn i ymgeiswyr am Ganiatâd Adeilad Rhestredig gofnodi'r adeiladau dan sylw ar lefel briodol o fanylder; byddwn yn gweithio gydag asiantaethau treftadaeth Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod y pedair cenedl yn mabwysiadu ymagwedd gyson.

4.0 Iach ac Egniol

'Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau ... [a chreu] amgylchedd lle mae iechyd da yn cael ei ystyried yn gaffaeliad naturiol i bawb .' (*Ffyniant i Bawb*, tudalen 11)

4.1 **Amcan Ffyniant i Bawb: Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb; a chreu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell**

Iechyd meddwl: Yn dilyn y digwyddiad undydd a gynhaliwyd gan y Comisiwn Brenhinol yn 2017 i gyflwyno gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol i Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, byddwn yn meithrin y berthynas hon er mwyn hybu'r archif fel ffynhonnell deunyddiau a all symbylu atgofion a chof i'r sawl sy'n byw gyda dementia; gwneir hyn mewn partneriaeth â Chasgliad y Werin Cymru.

Teithiau cerdded tywys: Byddwn yn helpu i hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb drwy barhau i weithio gyda grwpiau lleol i drefnu ac arwain teithiau cerdded mewn rhannau o Gymru y mae ganddynt dreftadaeth gyfoethog.

3. Cymorth Grant Llywodraeth Cymru

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Comisiwn Brenhinol yn 2018-19 i gyflawni'r blaenoriaethau hyn fel a ganlyn:

Costau rhedeg 2018-19	£000oedd
Cyfanswm	1,531
Cyfalaf	15
Dibrisiad	134 (eitem nad yw'n arian parod yw hon ac nid yw ar gael i'w thynnu i lawr yn ystod y flwyddyn)
Cyllid ychwanegol	
Y Gofrestr Enwau Lleoedd	60
Hanesyddol	
Casgliad y Werin Cymru	39.4

